Gwerthfawrogi adegau bach a chyffredin cyfranogiad plant

Canllaw i ymarferwyr a chynghorwyr sy'n gweithio gyda phlant rhwng 3 a 7 oed

Gwybodaeth am y canllaw hwn

Mae'r canllaw hwn yn seiliedig ar ymchwil gyda phlant rhwng 3 a 7 oed ledled Cymru sy'n edrych ar sut maen nhw'n deall ac yn profi cyfranogiad mewn bywyd ysgol bob dydd. Fe wnaeth y plant gymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol a oedd yn eu cefnogi i rannu eu syniadau a'u safbwyntiau.

Ar draws y lleoliadau dan sylw, fe wnaeth y plant ddisgrifio cyfranogiad mewn ffyrdd tebyg. Mae eu profiadau'n tynnu sylw at bwysigrwydd perthnasoedd bob dydd, arferion, a phenderfyniadau bach wrth lunio eu hymdeimlad o reolaeth a pherthyn.

Mae'r canfyddiadau o'r ymchwil hwn wedi cael eu trosi'n ystyriaethau ymarferol ar gyfer ymarferwyr a chynghorwyr.

Negeseuon allweddol ar gyfer ymarfer

- I blant iau, mae cyfranogiad yn berthynol ac yn digwydd drwy adegau bob dydd wrth chwarae, o ran arferion, a rhyngweithio ag eraill.
- Mae penderfyniadau bach am chwarae, cysur, amgylchedd, a dysgu yn gyfleoedd ystyrlon i blant ddylanwadu ar eu profiadau.
- Dylid gwreiddio cyfranogiad drwy gydol y diwrnod ysgol, heb fod yn gyfyngedig i weithgareddau penodol neu wedi'u hamserlennu fel "amser dewis."
- Dylai pob plentyn brofi cyfranogiad fel hawl bob dydd, nid rhywbeth sy'n dibynnu ar ymddygiad neu gymeradwyaeth oedolyn.
- Mae plant eisiau i'w syniadau wneud gwahaniaeth amlwg i'r hyn sy'n digwydd yn eu hamgylcheddau dysgu ac ystafell ddosbarth.

Beth ddywedodd y plant am eu profiadau o hawliau cyfranogol, a beth mae hyn yn ei olygu i ymarfer

1. Mae cyfranogiad yn digwydd ar adegau bach a chyffredin

Yr hyn a ddywedodd y plant wrthym
Disgrifiodd y plant gyfranogiad drwy ddewisiadau bob dydd, fel ble i chwarae, beth i'w wneud, a ddylid gwisgo côt, neu sut i ddysgu. Roeddent hefyd yn siarad am benderfyniadau sy'n ymwneud â chysur a llesiant, fel golau, lle, a thymheredd.

"Byddwn i'n chwarae y tu allan pan fydd hi'n bwrw glaw". (Matt, Meithrinfa, 3–4 oed)

"Dylen ni gynnwys pawb yn yr amser cylch, y ddau ddosbarth derbyn". (Addison, Derbyn, 4–5 oed)

Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol...
Dylai ymarferwyr wneud y canlynol:

- sylwi ar gyfleoedd bob dydd i blant ddylanwadu ar benderfyniadau a chreu cyfleoedd o'r fath.
- ymateb i ddewisiadau plant o ran arferion, chwarae, a dysgu drwy ymarfer hyblyg ac ymatebol.
- cydnabod bod cyfranogiad yn ymwneud â gweithgareddau llais ffurfiol yn ogystal â rhyngweithio a dewisiadau bob dydd.
- gwerthfawrogi dewisiadau plant o ran cysur, diogelwch, a llesiant fel rhan o gyfranogiad.
- cefnogi plant i siapio eu mannau dysgu a'u hamgylcheddau dosbarth dros amser.

Gall cynghorwyr wneud y canlynol:

- cefnogi dysgu proffesiynol sy'n canolbwyntio ar ymarferwyr yn sylwi ar syniadau a dewisiadau plant ac yn ymateb iddynt.
- annog deialog fyfyriol ynghylch sut mae cyfranogiad yn digwydd mewn ymarfer ystafell ddosbarth bob dydd.

2. Ni ddylai cyfranogiad ddibynnu ar ymddygiad

Yr hyn a ddywedodd y plant wrthym
Teimlai rhai plant mai dim ond pan oeddent yn ymddwyn yn dda neu pan oedd ganddynt syniadau "da" y gwrandawyd arnynt. Mae hyn yn awgrymu bod cyfranogiad plant weithiau'n amodol, yn dibynnu ar gymeradwyaeth oedolion neu ddisgwyliadau ymddygiad.

Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol...
Dylai ymarferwyr wneud y canlynol:

- sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfleoedd i fynegi eu barn a'u syniadau.

- osgoi cysylltu cyfranogiad â gwobrau neu gydymffurfiaeth o fewn systemau ymddygiad neu arferion ystafell ddosbarth.
- myfyrio ar sut y gall systemau ymddygiad ddylanwadu ar ba blant y gwrandewir arnynt.
- creu arferion cynhwysol sy'n helpu pob plentyn i rannu ei syniadau a'i safbwyntiau.

Gall cynghorwyr wneud y canlynol:

- cefnogi ysgolion i adolygu ymddygiad ac ymarfer perthynol mewn ffyrdd sy'n cryfhau cyfranogiad plant.
- annog datblygiad cyfranogiad fel rhan o arfer cynhwysol a theg.

3. Dylid gwreiddio cyfranogiad drwy gydol y dydd

Yr hyn a ddywedodd y plant wrthym

Disgrifiodd y plant fod cyfranogiad yn digwydd yn bennaf ar adegau penodol megis "amser dewis." Mae hyn yn awgrymu y gall plant brofi cyfranogiad fel rhywbeth sydd wedi'i gyfyngu i rannau penodol o'r dydd yn hytrach nag fel rhan o fywyd bob dydd yn yr ystafell ddosbarth.

Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol...

Dylai ymarferwyr wneud y canlynol:

- ymgorffori cyfranogiad ar draws arferion bob dydd, cyfnodau pontio, a dysgu drwy gydol y diwrnod ysgol.
- cynnwys plant mewn penderfyniadau am eu gweithgareddau a'u profiadau dysgu.
- ymestyn diddordebau'r plant dros amser yn hytrach na'u cyfyngu i weithgareddau byr neu unigol.
- cefnogi parhad a dyfnder mewn dysgu drwy ymateb i syniadau a dewisiadau plant.

Gall cynghorwyr wneud y canlynol:

- cefnogi ysgolion i symud y tu hwnt i gyfranogiad sydd wedi'i gyfyngu i weithgareddau penodol neu adegau penodol o'r dydd.
- cysylltu cyfranogiad â'r cwricwlwm ac addysgeg o fewn ymarfer ystafell ddosbarth bob dydd.

4. Mae plant yn deall cyfranogiad drwy brofiad

Yr hyn a ddywedodd y plant wrthym

Nid oedd y rhan fwyaf o blant yn adnabod iaith ffurfiol am hawliau ond roeddent yn deall cyfranogiad pan roeddent yn gallu gwneud penderfyniadau a dylanwadu ar yr hyn a ddigwyddodd yn eu profiadau bob dydd.

Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol...

Dylai ymarferwyr wneud y canlynol:

- defnyddio iaith bob dydd i siarad am ddewis a dylanwad.

- cefnogi plant i gydnabod eu gallu i ddylanwadu ar yr hyn sy'n digwydd.
- cysylltu cyfranogiad â pherthnasoedd a dysgu.
- osgoi gorddibyniaeth ar derminoleg haniaethol fel iaith hawliau.

Gall cynghorwyr wneud y canlynol:

- cefnogi dysgu proffesiynol sy'n cysylltu hawliau ag ymarfer bob dydd ar gyfer plant iau.

5. Mae plant eisiau gweld bod eu syniadau wedi gwneud gwahaniaeth

Yr hyn a ddywedodd y plant wrthym

Roedd y plant yn gwerthfawrogi bod rhywun yn gwrando arnynt ond roeddent am i'w syniadau wneud gwahaniaeth i'r hyn sy'n digwydd yn yr ystafell ddosbarth.

Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol...

Dylai ymarferwyr wneud y canlynol:

- rhoi adborth i blant am ba benderfyniadau sydd wedi cael eu gwneud.
- gwneud newidiadau'n weladwy i blant.
- cynnwys plant yn y gwaith o adolygu eu hamgylchedd a'u dysgu.
- ailedrych ar syniadau'r plant dros amser.

Gall cynghorwyr wneud y canlynol:

- cefnogi ysgolion i greu dolenni adborth.
- annog gwerthusiad myfyriol o arferion cyfranogi.

Cefnogi dysgu proffesiynol

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gryfhau cyfranogiad drwy wneud y canlynol:

- datblygu ymarfer myfyriol o amgylch yr hyn y mae'r ymarferwr yn sylwi arno a'i ymatebolrwydd.
- cefnogi dulliau perthynol a chynhwysol o ran cyfranogiad.
- cysylltu cyfranogiad â llesiant a rheolaeth plant.
- creu cyfleoedd ar gyfer ymholiadau cydweithredol.

Casgliad

Mae gwerthfawrogi'r adegau bach a chyffredin o gyfranogiad yn ffordd bwerus o gryfhau rheolaeth, cynhwysiant, a llesiant plant iau drwy'r hyn mae ymarferwyr yn sylwi arno'n ddyddiol. Drwy wreiddio cyfranogiad mewn arferion dyddiol, gall ymarferwyr a chynghorwyr gefnogi profiadau ystyrlon a theg i bob plentyn.

Cefnogi cyfranogiad bob dydd mewn blynyddoedd cynnar ac ystafelloedd dosbarth cynradd: Cwestiynau myfyriol i ymarferwyr

Sut mae defnyddio'r cwestiynau hyn

Bwriad y cwestiynau canlynol yw cefnogi deialog a myfyrio proffesiynol ymysg ymarferwyr. Gellir eu defnyddio mewn cyfarfodydd tîm, hyfforddiant, neu ddysgu proffesiynol i gryfhau cyfranogiad bob dydd a gweithredu.

1. Sylwi ar gyfranogiad bob dydd

- Pa adegau bach a chyffredin ydw i'n eu hadnabod fel cyfranogiad?
- Pryd ydw i'n sylwi ar blant yn dylanwadu ar benderfyniadau mewn bywyd bob dydd yn yr ystafell ddosbarth?
- Pa gyfleoedd i gyfranogi y gallwn fod yn eu hanwybyddu mewn arferion bob dydd?

2. Beth sy'n bwysig i blant

- Sut ydw i'n cael gwybod beth sy'n bwysig i'r plant yn fy nosbarth?
- Ydw i'n cymryd pryderon bob dydd y plant o ddifrif? (er enghraifft, cysur, diogelwch, neu lle maen nhw'n dysgu.)
- Pa mor aml mae plant yn dylanwadu ar benderfyniadau am eu hamgylchedd a'u harferion?

3. Ymddygiad, pŵer, a llais

- A yw disgwyliadau ymddygiad yn dylanwadu ar ba blant rwy'n gwrando arnynt?
- A yw cyfleoedd i fynegi barn yn gysylltiedig â gwobrwyo neu gydymffurfio o gwbl?
- Sut alla i sicrhau bod pob plentyn yn teimlo'n ddiogel i rannu ei farn?

4. Gwneud cyfranogiad yn weladwy

- Sut ydw i'n rhoi adborth i blant am yr hyn sydd wedi newid o ganlyniad i wrando ar eu syniadau?
- Pa mor aml ydw i'n dychwelyd at awgrymiadau'r plant a'u cyflawni?
- Sut mae dylanwad ystyrlon plant yn edrych yn fy ystafell ddosbarth?

5. Cyfranogiad yn ystod y diwrnod ysgol

- Sut alla i gefnogi dylanwad plant yn ystod y diwrnod ysgol?
- Pa benderfyniadau ydw i'n eu gwneud ar hyn o bryd y gallai plant fod yn rhan ohonynt?
- Sut alla i ymestyn diddordebau plant dros gyfnodau hirach?

6. Iaith a dealltwriaeth

- Sut ydw i'n siarad am gyfranogaeth mewn ffyrdd y mae plant yn eu deall?
- Sut ydw i'n cefnogi gwahanol ffyrdd i blant iau fynegi eu barn, gan gynnwys chwarae, tynnu llun, ac ystumiau?
- Sut alla i wneud cyfranogi'n fwy gweladwy ac ystyrlon i blant iau?